# Disgrifiad swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl swydd:** | Swyddog Mewnwelediadau Data |
| **Yn atebol i'r:** | Rheolwr Polisi a Mewnwelediadau |
| **Grŵp/Grwpiau:** | Llais a Systemau |
| **Gweithgareddau:** | Partneriaethau Strategol, Strategaeth a Chynllunio, Mewnwelediadau, Polisi |
| **Cyflog:** | Gradd C CGGC: £33,286 yn codi i £37,464 y flwyddyn. Y cyflog cychwynnol fydd £33,286 a byddwch yn symud drwy'r amrediad cyflog yn unol â chwblhau'r cyfnod prawf a'n proses adolygu perfformiad yn llwyddiannus. |
| **Lleoliad:** | Mae gan CGGC bolisi gweithio hybrid a hyblyg ar waith, sy'n golygu y gallwch weithio cyfran o'ch amser yn ein swyddfeydd neu o bell (gan gynnwys gartref). Rydym yn fudiad Cymru gyfan gyda chanolfannau swyddfa yn Aberystwyth, Caerdydd a'r Rhyl y gall staff eu defnyddio. Bydd angen mynychu rhai digwyddiadau staff a galwadau gwaith penodol yn ein swyddfeydd. |
| **Gwyliau blynyddol:** | 25 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau banc, a phum diwrnod drwy ddisgresiwn |
| **Oriau:** | 35 awr yr wythnos, yn hyblyg. |

| | |
|---|---|
| **Pensiwn:** | Mae CGGC yn cyfrannu 9% o'ch cyflog blynyddol i'w gynllun pensiwn cymeradwy. |
| **Categori Cymraeg:** | Dymunol |

## DIBEN Y SWYDD

Bydd y Swyddog Mewnwelediadau Data yn helpu CGGC i wella'r ffordd rydym yn casglu ac yn defnyddio data, gan ganolbwyntio i ddechrau ar Faromedr newydd Sector Gwirfoddol Cymru – adnodd arloesol i gael gafael ar dystiolaeth ddibynadwy am y sector yng Nghymru. Bydd y rôl hon hefyd yn gwella'r ffordd rydym yn defnyddio ac yn cwestiynu'r data o'n platfformau presennol, ynghyd â ffynonellau allanol, trwy gynhyrchu mewnwelediadau i gefnogi ein gwaith ar ddylanwadu ar bolisïau cyhoeddus a chyflawni cymorth effeithiol i'r sector.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

- **Dadansoddi Data'r Sector Gwirfoddol a Chynhyrchu Mewnwelediadau**
- Dadansoddi data a chyflwyno mewnwelediadau o blatfformau cyfredol Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW), gan gynnwys system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid Salesforce, ein gwefannau cyllido a gwirfoddoli.
- Cadw i'r funud â gwaith ymchwil newydd ac ymchwil sy'n dod i'r golwg gan ffynonellau perthnasol er mwyn ategu a chwyddo ein hallbwn.
- Monitro tueddiadau'r sector, nodi heriau a chyfleoedd i gynorthwyo ein gwaith polisi a'n gwaith ar gefnogi'r sector.
- Creu crynodebau data, adroddiadau a gweledigaethau er mwyn cyfathrebu'r canfyddiadau'n glir i gynulleidfaoedd nad ydynt yn dechnegol.

- **Cefnogi gweithrediad ac ymwreiddio parhaus Baromedr Sector Gwirfoddol Cymru (y Baromedr) – ein harolwg chwarterol newydd**
- Gweithio gyda'n partneriaid yn yr Arsyllfa Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol (VCSE) ar ddatblygu, hyrwyddo a gweithredu'r Baromedr, gan sicrhau perthnasedd cenedlaethol a lleol.

- Cynnal dadansoddiad rheolaidd o ganlyniadau'r Baromedr er mwyn rhoi mewnwelediadau i staff CGGC, llunwyr polisïau, cyllidwyr a mudiadau gwirfoddol eraill.
- Cyfrannu at lunio adroddiadau hygyrch, gan sicrhau bod yr allbynnau yn cyd-fynd â brand CGGC, hygyrchedd a safonau'r Gymraeg.

- **Cydweithio ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Systemau a Data a'r Pennaeth Systemau i optimeiddio prosesau data a sicrhau integreiddio ar draws platfformau.
- Cyfrannu at waith y tîm Polisi a Mewnwelediadau drwy ddarparu data meintiol i gefnogi eiriolaeth ar sail tystiolaeth a datblygiad polisi.
- Ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys cyllidwyr a phartneriaid, er mwyn rhannu mewnwelediadau a chefnogi prosesau penderfynu a hysbysir gan ddata.

- **Adeiladau Capasiti a Hyfforddiant**
- Cynorthwyo timau CGGC i ddeall a defnyddio data'n effeithiol drwy greu adnoddau a chyflwyno sesiynau hyfforddi ar ddehongli data.
- Rhoi arweiniad ar ddefnyddio dangosfyrddau cyfredol, gan sicrhau bod mewnwelediadau data yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl

- **Cydymffurfio ac Ansawdd Data**
- Sicrhau bod y ffordd yr ymdrinnir â'r holl ddata yn cydymffurfio â'r GDPR a pholisïau diogelu data CGGC.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Systemau a Data i gynnal safonau uchel o ansawdd data a symleiddio prosesau dadansoddi data.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau ychwanegol o bryd i'w gilydd neu yn ôl y gofyn, wrth i anghenion y gwasanaeth neu'r mudiad ddatblygu.

## MANYLEB YR UNIGOLYN

**Mae'r canlynol yn *sgiliau hanfodol*** (ni fydd ymgeiswyr sy'n methu ag arddangos y rhain yn cael eu rhoi ar y rhestr fer)

1. Ymrwymiad i ddiben a gwerthoedd CGGC.

2. Ymrwymiad cadarn i feithrin diwylliant o degwch, amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth lle y mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn. Bydd hyn yn golygu herio arferion gwahaniaethol, a chreu amgylchedd lle y mae pob unigolyn yn cael cyfle cyfartal i ffynnu.

3. Profiad y gellir ei ddangos o ddadansoddi data ac adrodd i gynulleidfaoedd gwahanol, yn ddelfrydol yn y sectorau gwirfoddol, cyhoeddus neu fentrau cymdeithasol.

4. Gallu profedig o drin, dadansoddi a dehongli data meintiol, gan weithredu arferion gorau moeseg a diogelu data.

5. Profiad o gadw i'r funud â gwaith ymchwil allanol perthnasol a'r gallu i ddeall sut mae'n ymwneud â'ch gwaith dadansoddi eich hun.

6. Natur gydweithredol ac agos atoch, gyda moeseg tîm gref, sgiliau trefnu rhagorol ac yn gallu cyflawni o fewn dyddiadau cau tynn.

**Mae'r canlynol yn *sgiliau allweddol*** (mae angen y sgiliau yma ar gyfer y swydd ond gellid eu caffael yn y swydd neu drwy hyfforddiant o fewn chwe mis i'r penodiad)

1. Gallu dehongli a defnyddio data i hysbysu datblygiad polisïau cyhoeddus a phrosesau penderfynu.

2. Gwybodaeth am bolisïau cyhoeddus o fewn cyd-destun Cymru.

**Mae'r canlynol yn *sgiliau dymunol*** (byddai meddu ar y sgiliau hyn yn dda o beth, a byddai'n cyfoethogi'r cais)

1. Gradd mewn gwyddor data, ystadegau, ymchwil cymdeithasol neu faes perthnasol.
2. Profiad o ddefnyddio meddalwedd dadansoddi data, fel Python, R Studio, SPSS, neu NVivo.
3. Byddai gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol; disgwylir i'r ymgeisydd a benodir ddangos ymwybyddiaeth a chefnogaeth o'r Gymraeg.

4. Y gallu i ddylunio gweledigaethau data clir, hygyrch a diddorol.